# Y Bwrdd Rheoli
# Management Board

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**MB (09-09) Papur 3 (Rhan 1)**
**Adroddiad Rheolaeth Ariannol**

**Dyddiad: 12 Tachwedd 2009**
**Amser: 09:30-11:30**
**Lleoliad: Ystafell Gynadledda 4B**
**Enw'r Awdur a rhif cyswllt: Nicola Callow, est. 8054**

## Adroddiad Rheolaeth Ariannol: Y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi 2009

*Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan y Bwrdd Rheoli a barnwyd ei fod yn addas i'w gyhoeddi ar y Fewnrwyd.*

**TROSOLWG O'R PERFFORMIAD ARIANNOL YN YSTOD Y CYFNOD**

1. Y mis diwethaf, nodwyd bod dull newydd o ragweld gwariant wedi'i gyflwyno. Mae'r dull hwn yn datblygu'r sgiliau rheolaeth ariannol sydd eisoes yn bodoli yn y Cynulliad ac yn canolbwyntio ein sylw ar reoli ein cyllideb dros y flwyddyn gyfan. Mae'r papur hwn yn seiliedig ar y dull newydd a ddaeth i rym ar 1 Medi. Mae rhagor o waith yn cael ei wneud ar y ffordd orau o gyflwyno gwybodaeth am reolaeth ariannol i'r Bwrdd Rheoli yn y dyfodol.

2. Y gwariant net erbyn diwedd mis Medi oedd £21.029 miliwn gyda £0.276 miliwn yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn. Oherwydd y newid yn y dull o ragweld gwariant, nid oes amrywiant i'w gofnodi. Roedd y rhagolwg 'blwyddyn hyd yn hyn' newydd yn seiliedig ar wir wariant ar gyfer pum mis cyntaf y flwyddyn.

3. Mae dadansoddiad manwl ategol i'w weld yn yr Atodiad:
   - Mae Nodyn 1 yn cyflwyno perfformiad yn ôl meysydd gwasanaeth;
   - Mae Nodyn 2 yn rhoi eglurhad dros yr amrywiannau;
   - Mae Nodyn 3 yn crynhoi'r gwariant yn ôl natur y gost;
   - Mae Nodyn 4 yn rhoi trosolwg o'r gronfa wrth gefn gan ddangos arian y cytunwyd i'w drosglwyddo;
   - Mae Nodyn 5 yn rhestru'r ceisiadau ychwanegol posibl am arian o'r gronfa wrth gefn;
   - Mae Nodyn 6 yn rhestru cronfeydd a ryddhawyd o feysydd gwasanaeth, gan gynnwys effeithlonrwydd, arbedion a thanwariant yn ystod y flwyddyn;
   - Mae Nodyn 7 yn rhoi manylion am yr alldro a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn.

**Y NEGESEUON ALLWEDDOL I'R BWRDD ac ASESIAD RISG O'R GYLLIDEB A GYMERADWYWYD AR GYFER Y FLWYDDYN (£47.751 miliwn)**

4. Cymeradwywyd cynnig y gyllideb atodol i gynyddu cyllideb y Comisiwn i £49.701 miliwn ar 20 Hydref 2009. Mae'r cynnydd yn gysylltiedig â phrosiect UNO. Yn ychwanegol at hyn, cymeradwywyd cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2010-11, sef £48.973 miliwn ar 21 Hydref 2009.

5. Dyma'r meysydd risg allweddol yn y gyllideb, wedi'u dosbarthu gan ddefnyddio Gwyrdd os yw'n cadw at y targed, Ambr ar gyfer risg posibl a Choch os nad yw'n cadw at y targed:

   A Prosiect UNO - dylai'r prosiect fynd rhagddo'n gyflym ar ôl cymeradwyo'r gyllideb atodol. Mae cost amcangyfrifedig cyfredol y prosiect wedi cynyddu o £0.2 miliwn arall i £2.9 miliwn (penderfyniad y Bwrdd Prosiect ar 13 Hydref 2009). Diben y cynnydd hwn yw cryfhau a sicrhau parhad busnes. Yn ychwanegol at hyn, mae gwaith yn parhau er mwyn rheoli'r risgiau ariannol sydd a wnelo'n bennaf â'r amcangyfrif cyfredol na fydd £0.25 miliwn yn cael ei wario yn ystod y flwyddyn ariannol hon ac y bydd angen ei ariannu o gyllideb 2010-11.

   A Prosiect y Pierhead – mae gwaith ar gam 2 y prosiect yn mynd rhagddo'n dda ac mae o fewn y gyllideb. Mae'r gwaith yn parhau er mwyn sicrhau bod risgiau ariannol yn cael eu nodi a'u rheoli.

   A Lefel yr hyblygrwydd yng nghyllideb cyffredinol y Comisiwn a'r gronfa wrth gefn. Mae Nodyn 7 yn nodi'r tanwariant o £0.48 miliwn a ragwelir ar gyfer 2009-10 sy'n seiliedig ar y dull o ragweld gwariant a gyflwynwyd ym mis Medi. Caiff cywirdeb y rhagolygon ei brofi yn ystod y trafodaethau gyda Phenaethiaid Gwasanaethau a chydgysylltwyr ariannol yn ystod mis Hydref.

6. ✓ Mae'r dull newydd o ragweld gwariant wedi rhoi darlun mwy manwl, a mwy cywir, o bosibl. Mae hyn wedi caniatáu i ymrwymiad o £0.25 miliwn gael ei wneud i ariannu prosiect system Gwaith Achos yr Aelodau.

7. ✓ Mae'r tîm Taliadau wedi cynnal gweithdy mapio proses (21 Hydref 2009) i nodi unrhyw broblemau o ran archebion prynu a bydd yn gweithio gyda'r gwasanaethau i ddatrys unrhyw broblemau sy'n codi.

8. ✓Ers mis Ebrill, mae £1.3m wedi'i drosglwyddo o gyllidebau'r gwasanaethau i'r gronfa wrth gefn (Mae Nodyn 6 yn rhoi'r manylion). Mae £0.687 miliwn wedi'i drosglwyddo o'r gronfa wrth gefn i gyllidebau gwasanaethau, gan adael balans o £1.575 miliwn. O ystyried y rhagolygon gan ddeiliaid cyllidebau gwasanaethau a'r pwysau ariannol ychwanegol a nodwyd yn Nodyn 7, disgwyliwn i'r alldro diwedd blwyddyn ddangos tanwariant o £0.480 miliwn.

9. Yn dilyn ymlaen o'r trafodaethau diweddar gyda deiliaid Cyllidebau, mae tebygolrwydd cryf y bydd y tanwariant yn parhau i gynyddu (yr amcangyfrif presennol yw £150,000 arall). Gyda phum mis arall o'r flwyddyn ariannol yn weddill, mae angen i'r Bwrdd Rheoli ystyried cynlluniau ar gyfer tanwariant targed. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa mis Hydref ar lafar yn y cyfarfod.

ARGYMHELLION I'R BWRDD

10. Rydym yn argymell bod Aelodau'r Bwrdd yn:

   a. Ystyried pa mor briodol yw'r amrywiannau ym mherfformiad cyllidebol y gwahanol feysydd gwasanaeth ac a ellir eu cyfiawnhau;
   b. Tynnu sylw at unrhyw faterion arwyddocaol na ddaeth i'r amlwg yn y rhagolygon alldro. Gall y rhain gynnwys cynnydd yn y costau a amcangyfrifwyd, cynigion newydd am wariant, neu arbedion / tanwariant posibl na nodwyd ynghynt;
   c. Adolygu'r risgiau allweddol a amlygwyd yn yr adroddiad ac ystyried unrhyw gamau y gellir eu cymryd i leihau'r risgiau hynny; ac
   d. Ystyried cynlluniau ar gyfer y tanwariant a ragwelir.

# ATODIAD I'R ADRODDIAD RHEOLAETH ARIANNOL

## Dadansoddiad manwl o'r sefyllfa ariannol


### *1. Perfformiad cyllidebol rhwng mis Ebrill a mis Medi 2009-10*

| Gwasanaeth | Rhagol-ygon hyd yma (£'000) | Gwir wariant hyd yma (£'000) | Amrywiant ar gyfer y cyfnod (£'000) | Amryw-iant % | Cyllideb Flynydd-ol 2009-10 (£'000 | Rhagol-ygon Alldro ar gyfer 2009-10 (£'000) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr Uned Gorfforaethol | 810 | 810 | 0 | 0 | 1,786 | 1,769 |
| Y Gwasanaethau Cyfreithiol | 269 | 274 | -5 | -2 | 647 | 577 |
| | **1,079** | **1,084** | **-5** | **0** | **2,433** | **2,346** |
| **Y GYFARWYDDIAETH GWEITHREDIADAU** | | | | | | |
| Adnoddau Dynol | 713 | 707 | 6 | 1 | 1,526 | 1,497 |
| Rheoli Ystadau a Chyfleusterau | 3,699 | 3,592 | 107 | 3 | 7,660 | 7,675 |
| Y Gwasanaethau Ariannol | 365 | 362 | 3 | 1 | 749 | 790 |
| TGCh | 1,891 | 1,931 | -40 | -2 | 4,818 | 4,932 |
| Cyfathrebu Allanol | 1,119 | 1,108 | 11 | 1 | 2,724 | 3,335 |
| Diogelwch | 1,087 | 1,063 | 24 | 2 | 2,280 | 2,231 |
| Caffael a Chynaliadwyedd | 0 | 69 | -69 | 0 | 0 | 0 |
| | **8,874** | **8,832** | **42** | **0** | **19,757** | **20,460** |
| **CYFARWYDDIAETH BUSNES Y CYNULLIAD** | | | | | | |
| Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau | 909 | 911 | -2 | 0 | 1,922 | 1,828 |
| Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth | 503 | 501 | 2 | 0 | 1,161 | 1,104 |
| Y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi | 846 | 848 | -2 | 0 | 1,993 | 1,751 |
| Gwasanaeth y Pwyllgorau | 502 | 500 | 2 | 0 | 1,295 | 1,119 |
| Yr Uned Gydgysylltu | 44 | 44 | 0 | 0 | 95 | 88 |
| | **2,804** | **2,804** | **0** | **0** | **6,466** | **5,890** |
| **Cyfanswm Gwasanaethau'r Comisiwn** | **12,757** | **12.720** | **37** | **0** | **28,657** | **28,696** |
| Cyflogau a Lwfansau Aelodau | 6,107 | 6,131 | -24 | **0** | 12,819 | 12,546 |
| Cyfanswm – eitemau arian parod | **18,864** | **18,851** | **13** | **0** | **41,476** | **41,242** |
| Dibrisiant a llog tybiannol | 2,100 | 2,178 | -78 | -4 | **4,200** | **4,356** |
| Cronfa Bensiwn yr Aelodau | | | | | **500** | **500** |
| Cronfa wrth gefn | | | | | 1,575 | - |
| **Cyfansymiau** | **20,964** | **21,029** | **-65** | **0** | **47,751** | **46,098** |

## 2. *Eglurhad o'r Amrywiannau sy'n fwy na'r goddefiant o 2% ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ym mis Medi 2009*

| Gwasanaeth/ Amrywiant % / £'000 | Rheswm dros yr Amrywiant | Camau sy'n cael eu cymryd i ddileu'r amrywiant |
|---|---|---|
| **Rheoli Ystadau a Chyfleusterau 3% o dan y gyllideb 107** | Mae hyn yn bennaf oherwydd y gyllideb costau staff hyd yma, gan gynnwys £69k ar gyfer y tîm Cynaliadwyedd a Chaffael. Pe bai'r swm hwn wedi'i drosglwyddo i'r llinell wariant newydd a sefydlwyd ar gyfer caffael, byddai'r amrywiant ar gyfer y gwasanaeth hwn yn 1% | Mae angen trosglwyddo cyflogau'r gyllideb i'r llinell wariant Caffael a Chynaliadwyedd newydd. |

## 3. *Rhagolygon yn erbyn y gwir wariant hyd yma – wedi'u grwpio yn ôl natur y gwariant*



### 4. *Arian a drosglwyddwyd*

| **Balans y gronfa wrth gefn:** | Rhyddhawyd o gyllidebau gwasanaethau (£'000) | Dyrannwyd i gyllidebau gwasanaethau (£'000) | Balans y gronfa wrth gefn ar ddiwedd y mis (£'000) |
|---|---|---|---|
| *Balans gweithredol agoriadol 01/04/09* | | | *983* |
| Ebrill | 793 | -461 | 1,315 |
| Mai | 210 | - | 1,525 |
| Mehefin | - | -60 | 1,465 |
| Gorffennaf | - | - | 1,465 |
| Awst | - | -166 | 1,299 |
| Medi | 276 | - | 1,575 |
| **Balans cyfredol** | **1,279** | **-687** | **1,575** |
| **Gwir arbedion hyd yma** | | | **592** |

## ATODIAD I'R ADRODDIAD RHEOLAETH ARIANNOL
## Dadansoddiad manwl o'r sefyllfa ariannol

### *5. Crynodeb o'r ceisiadau posibl am arian ar 30 Medi 2009*

| Gwasanaeth | Ceisiadau posibl am arian | Amcangyfrif o werth (£'000) y ceisiadau posibl am arian ar 31 Awst 2009 | Y sefyllfa ar 30 Medi 2009 | Newidiadau yn yr amcangyfrif o werth (£'000) | Ceisiadau newydd am arian ym mis Medi 2009 (£'000) | Dyrannwyd o'r gronfa wrth gefn i gyllideb gwasanaethau ym mis Medi 2009 (£'000) | Amcangyfrif o werth y ceisiadau posibl am arian ar 30 Medi 2009 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfathrebu Allanol | Cam 2 (&3?) Prosiect y Pierhead [1] | 750 | Cyllideb o £1.1 miliwn at ei gilydd gan gynnwys £0.3 miliwn o gyllideb yr Adran Cyfathrebu Allanol | -750[1] | | | - |
| TGCh | Y Rhwydwaith Unedig | 500 | Cymeradwyo'r gyllideb atodol ar 20 Hydref 2009. Yr amcangyfrif wedi cynyddu oherwydd materion yn ymwneud â pharhad busnes. | 200 | | | 700 |
| | Newidiadau i FTR Gold | 10 | Heb ei ddyrannu eto. Aros am gadarnhad y gall y gyllideb bresennol dalu am y gwariant | | | | 10 |
| | Prosiect Rheoli Gwaith Achos yr Aelodau | - | Heb ei ddyrannu eto. Aros am strwythur ffurfiol y prosiect. | | 250 | | 250 |
| Yr Uned Gorfforaethol | Swyddi newydd – rhaglen newid | 114 | Heb ei ddyrannu eto. Aros am strwythur ffurfiol y prosiect. | | | | 114 |
| | Rhagor o waith gan y Panel Adolygu Aelodau – angen rhagor o arian | 53 | Yn ddyledus ar ddiwedd y mis, trosglwyddwyd y gyllideb ar 7 Hydref 2009 | | | | 53 |
| | Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar brosiect UNO | 5 | Yn ddyledus ar ddiwedd y mis, trosglwyddwyd y gyllideb ar 7 Hydref 2009 | | | | 5 |
| Rheoli Ystadau a Chyfleusterau | Costau adnewyddu ychwanegol 3A [1] | 87 | Nid oes ei angen bellach, gall y gyllideb bresennol dalu am y gwariant | -87[1] | | | - |
| | Sgriniau/bythau Cofnod y Trafodion | 25 | Cyfarfod ar 28 Hydref 2009 i gadarnhau'r camau, disgwyl i'r gyllideb bresennol dalu am y gwariant. | | | | 25 |
| | Y Tîm Gwyrdd | 16 | Cyfarfod ar 28 Hydref 2009 i gadarnhau'r camau, disgwyl i'r gyllideb bresennol dalu am y gwariant. (dilëwyd o Gyllideb yr Uned Gorfforaethol). | | | | 16 |
| | **CYFANSWM** | **1,560** | | **-637** | **250** | **-** | **1,173** |

[1] Dilëwyd o'r ceisiadau posibl am arian gan fod y gwariant eisoes wedi'i gynnwys yn y rhagolwg o alldro Gwasanaethau

6. Arian a ryddhawyd o gyllideb gwasanaethau gan gynnwys effeithlonrwydd, arbedion a gostyngiad yn y gyllideb yn ystod y flwyddyn

| Gwasanaeth | Manylion | Costau parhaus (£'000) | Costau untro (£'000) |
|---|---|---|---|
| Gwasanaeth y Pwyllgorau | Rhyddhawyd o'r cyfrif cynghorwyr – treuliau/tystion, gan na ddisgwylir y caiff ei wario, yn ôl gwariant yn y gorffennol | | 28 |
| | Rhyddhawyd o'r llinell wariant costau staff (ni ddilëwyd unrhyw swyddi) | | 50 |
| Rheoli Ystadau a Chyfleusterau | Rhyddhawyd o'r gyllideb staff asiantaeth gan na ddisgwylir y caiff ei wario, yn ôl gwariant yn y gorffennol | | 40 |
| | Rhyddhawyd o'r gyllideb Glanhau Ffenestri – gan fod y gost yn sefydlog a bod dim angen rhagor o arian. | | 11 |
| | Rhyddhawyd o'r gyllideb Sychlanhau, gan nad oes costau sychlanhau ar ôl prynu gwisgoedd newydd | | 3 |
| | Rhyddhawyd o'r gyllideb ysbwriel, yn dilyn camgymeriad wrth ddyrannu | | 58 |
| Adnoddau Dynol yr Aelodau | Rhyddhawyd yn ôl gwariant yn y gorffennol a'r disgwyliadau presennol o ran gwariant | | 226 |
| | Rhyddhawyd o'r gyllideb costau teithio a chynhaliaeth staff cymorth yr Aelodau oherwydd, yn ôl gwariant yn y gorffennol, ni ddisgwylir iddo gael ei wario | | 87 |
| | Rhyddhawyd o brosiect cronfa ddata'r Aelodau | | 8 |
| | Does dim angen cronfa wrth gefn yr Aelodau mwyach | | 330 |
| Cyfathrebu Allanol | Rhyddhawyd arian o'r gyllideb Marchnata a Chyhoeddusrwydd i ariannu prosiect y Pierhead | | 300 |
| Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau | Rhyddhawyd arian o brosiect TGCh gan fod y gwaith yn cael ei wneud yn fewnol | | 40 |
| Yr Uned Gorfforaethol | Rhyddhawyd arian o wahanol gyllidebau gan na ddisgwylir y caiff ei wario | | 19 |
| TGCh | Rhyddhawyd arian o wahanol gyllidebau gan na ddisgwylir y caiff ei wario | | 4 |
| Adnoddau Dynol | Dyrannwyd yn wreiddiol ar gyfer prosiect TGCh nad yw'n debygol o fynd rhagddo eleni | | 75 |
| **Cyfanswm** | | **-** | **1,279** |

## *7. Y gorwariant / tanwariant terfynol a ragwelir*

| | | |
|---|---|---|
| | ***£'000*** | ***£'000*** |
| **Y gyllideb wrth gefn wreiddiol** | | 1,000 |
| *Tynnu'r* arbedion effeithlonrwydd gofynnol (yn y gyllideb a gymeradwywyd) | | (250) |
| *Ychwanegu* Arbedion a nodwyd cyn 1 Ebrill 2009 | | 233 |
| *Ychwanegu'r* Cronfeydd a ryddhawyd o Gyllidebau Gwasanaethau, gan gynnwys effeithlonrwydd, arbedion a gostyngiad yn y gyllideb yn ystod y flwyddyn | | 1,279 |
| *Tynnu'r* cronfeydd ychwanegol a ddyrannwyd eisoes i gyllidebau gwasanaethau | | (687) |
| **Balans cyfredol (Nodyn 4)** | | **1,575** |
| *Tynnu'r* tanwariant disgwyliedig ar lwfansau Aelodau | | 273 |
| | | **1,848** |
| • Cynnydd mewn dibrisiant a thaliadau llog tybiannol | (156) | |
| • Gorwariant ar wasanaethau a ragwelir | (39) | (195) |
| **Tanwariant presennol a ragwelir (cyn pwysau ariannol ychwanegol)** | | **1,653** |
| **Pwysau ariannol ychwanegol: (Nodyn 5)** | | |
| • Y Rhwydwaith Unedig | (700) | |
| • Costau staffio ychwanegol (amrywiol) | (167) | |
| • Prosiect Rheoli Gwaith Achos yr Aelodau | (250) | |
| • Mân symiau eraill | (56) | (1,173) |
| **Balans (gorwariant)/tanwariant a ragwelir** | | **480** |